

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Brynmenyn

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg







Mae Ysgol Gynradd Brynmenyn yn ysgol hapus a chynhwysol sy’n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae’n darparu hafan ddigynnwrf lle mae disgyblion yn ffynnu. Mae ymddygiad pob un o’r disgyblion yn yr ysgol, ac o gwmpas yr ysgol, yn eithriadol o dda.

O oedran ifanc iawn, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd parchu pobl eraill. Maent yn rhyngweithio’n dda trwy gydol y diwrnod ysgol, ac maent yn sensitif i anghenion ei gilydd. O’u mannau cychwyn, sy’n aml yn isel, mae disgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol yn datblygu eu medrau siarad a gwrando, ac o ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau llafaredd rhagorol. Erbyn Blwyddyn 6, gall disgyblion gynnal sgyrsiau manwl am eu gwaith ac ystyried ymatebion ei gilydd yn ofalus mewn trafodaethau grŵp. Fodd bynnag, mae medrau Cymraeg disgyblion yn llai cryf. Mae disgyblion yn datblygu llais cryf yn yr ysgol, yn cyfrannu’n dda at amrywiaeth o grwpiau a phwyllgorau, ac yn gallu rhoi enghreifftiau o ble mae eu dylanwad wedi cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol.

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o’r amgylchedd dan do ac yn cynllunio gweithgareddau diddorol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ehangach yn y ‘stryd’. Mae gan bob aelod o staff berthnasoedd cadarnhaol â disgyblion, ac maent yn eu helpu’n sylweddol i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, er nad yw cyfleoedd i ddisgyblion aeddfedu fel dysgwyr annibynnol wedi’u datblygu’n ddigonol. Mae’r ysgol yn sefydlu cwricwlwm o gwmpas anghenion y disgyblion sy’n eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth bwrpasol o’u cymuned leol, eu cymuned ehangach a’u lle yn y byd. Mae arweinwyr a staff yn gofalu’n dda am yr holl ddisgyblion. Maent wedi datblygu cysylltiadau effeithiol â rhieni a gofalwyr sydd wedi cyfrannu at yr ymdeimlad o gymuned gefnogol yn yr ysgol.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref. Mae hi wedi datblygu uwch dîm arweinyddiaeth effeithiol, sy’n ei chynorthwyo’n dda. Mae’r staff yn gweithio’n agos fel tîm ac wedi ymrwymo i greu dysgwyr gydol oes. At ei gilydd, maent yn adnabod eu hysgol yn dda, ond nid yw prosesau hunanwerthuso bob amser yn canolbwyntio’n ddigon craff ar yr hyn y mae dysgwyr yn ei wneud a’i gyflawni.

# Argymhellion

A1 Canolbwyntio strategaethau monitro, gwerthuso a gwella yn graffach ar wella darpariaeth a safonau dysgu disgyblion

A2 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain a dod yn ddysgwyr annibynnol

A3 Gwella medrau disgyblion o ran siarad Cymraeg

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Brynmenyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 409 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 292 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 58 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 32.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | 16.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.8% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 20/04/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 17/09/2012 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/10/2022 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2022